Ysgol Llanhari

Pennaeth | Headteacher:
**Mrs Meinir Thomas**

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
01443 237824 | 01443 227365 | post@llanhari.com

**www.llanhari.com**

31.3.23

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Hoffwn i ddiolch yn fawr i'r disgyblion, staff a chi fel rhieni am eich cydweithrediad a chefnogaeth yn ystod y tymor prysur hwn sy'n dod i ben heddiw. Pleser fu gweld ymroddiad a brwdfrydedd y disgyblion i'w gwaith a gweithgareddau a dathlwyd sawl llwyddiant ar hyd y daith. Un o'r uchafbwyntiau'r tymor fu'r cyfle i ail-gydio yn eisteddfodau'r ysgol yn yr adrannau cynradd ac uwchradd ynghyd â llwyddiannau niferus yn Eisteddfod yr Urdd. Dymuniadau gorau i'r holl ddisgyblion a fydd yn cystadlu yn yr eisteddfod yn Llanymddyfri yn ystod gwyliau'r Sulgwyn. Mae holl ddigwyddiadau'r ysgol yn cael cryn sylw ar ein cyfrifon Trydar ac Instagram felly mynnwch gipolwg arnynt i gael blas ar ein prysurdeb.

Diolch yn fawr i'r holl rieni a wnaeth gwblhau'r holiadur ym mis Chwefror. Mae'r canlyniadau yn bositif iawn a gwerthfawrogwn y sylwadau ac awgrymiadau sydd wedi eu nodi ar yr holiaduron. Byddwn yn ystyried yr hyn a nodir ac addasu lle bo hynny'n briodol. Diolch hefyd i'r rhieni sydd wedi ein cynorthwyo ag elfennau cwricwlaidd yn yr adran gynradd. Rydym bob amser yn gwerthfawrogi unrhyw fewnbwn gennych i'n themau. Braf iawn fu croesawu nifer ohonoch i'r ysgol yn ystod y tymor i amrywiol nosweithau agored a chyflwyniadau. Diolch i chi am fynychu.

Yn ystod y tymor, penodwyd tri aelod o staff dysgu i'r ysgol a fydd yn cychwyn ym mis Medi 2023: Mr Gary Jones (Arweinydd Pwnc Technolegau Digidol a Chyfrifiadureg) Miss Rachel Williams (Drama) a Mrs Lowri Guy (Arweinydd Pwnc Cerddoriaeth a Chelfyddydau Perfformio) Dymuniadau gorau i Miss Bethany Randall a fydd yn ein gadael ar ddiwedd y tymor hwn ac yn symud i Ysgol Gyfun Bro Edern yng Nghaerdydd.

Mae disgyblion dosbarthiadau Barcud a Gwennol yn edrych ymlaen rwy'n siwr at eu cwrs preswyl yn Llangrannog ar ôl y Pasg ac ar yr un adeg bydd bron i 80 o ddisgyblion o flynyddoedd 8 a 9 yn mynd ar daith gyda'r Adran Ieithoedd Rhyngwladol i Normandi. Mae 60 o ddisgybion hŷn yr ysgol ar hyn o bryd ar daith sgio i Awstria. Byddant yn treulio wythnos gyntaf y gwyliau yn Zauchensee ac mae'n debyg bod yna eira da! Diolch i'r holl athrawon sy'n rhoi o'u hamser i drefnu'r teithiau yma ac sy'n cynnig y profiadau i'r disgyblion.

Mae ein grwp newydd *Ti a Fi* wedi cychwyn yn yr ysgol ers dechrau mis Mawrth. Os ydych yn adnabod rhywun â baban neu blentyn oed cyn-Feithrin a fyddai'n hoffi ymuno â'r criw bach sy'n cwrdd yn wythnosol bob bore Llun, rhanwch ebost yr ysgol gyda nhw os gwelwch yn dda post@llanhari.com

Yn hoffwn ddymuno'n dda i'r holl ddisgyblion ym mlynyddoedd 10-13 a fydd yn adolygu ar gyfer arholiadau allanol dros yr wythnosau nesaf. Maent wedi gweithio yn gydwybodol ar waith cwrs ac aseiniadau trwy gydol y flwyddyn a dyma'r cam olaf. Anogaf hwy i fyfyrio ar yr holl dechnegau adolygu sydd wedi eu cyflwyno iddynt a'u defnyddio wrth baratoi at yr arholiadau. Pob lwc i bawb!

Gyda dymuniadau gorau i bawb a Phasg Hapus!

Meinir Thomas

Meinir Thomas
Pennaeth

Ysgol Llanhari

Pennaeth | Headteacher:
**Mrs Meinir Thomas**

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
☎ 01443 237824 | 🖷 01443 227365 | post@llanhari.com

**www.llanhari.com**

31.3.23

Dear Parents / Carers

I would like to express my gratitude to the pupils, staff and you as parents for your cooperation and support during this busy term which ends today. It was a pleasure to see the pupils' dedication and enthusiasm for their work and activities and many successes were celebrated during the term. One of the highlights of the term has been the opportunity to participate in the school eisteddfod in the primary and secondary departments along with numerous successes in the Urdd Eisteddfod. Best wishes to all the pupils who will compete in the eisteddfod in Llandovery during the Whitsun holidays. As is usual, all school activities can be viewed on our Twitter and Instagram accounts, so please take a look at them to see all that's happening in school on a daily basis.

Many thanks to all the parents who completed the questionnaire in February. The results are very positive and we appreciate the comments and suggestions that have been noted on the questionnaires. We will consider the suggestions and adapt where appropriate. Thanks also to the parents who have helped us with curricular elements in the primary department. We always appreciate any input you have into our themes. It has been very pleasing to welcome many of you to the school during the term for various open evenings and presentations. Thank you for attending.

During the term, three members of teaching staff were appointed to the school. They will start their posts in September 2023: Mr Gary Jones (Subject Leader Digital Technologies and Computer Science) Miss Rachel Williams (Drama) and Mrs Lowri Guy (Subject Leader Music and Performing Arts) Best wishes to Miss Bethany Randall who will be leaving us at the end of this term and moving to Ysgol Gyfun Bro Edern in Cardiff.

Pupils in Barcud and Gwennol classes are looking forward I'm sure to their residential course in Llangrannog after Easter and during the same week almost 80 pupils from years 8 and 9 will be participating in a visit to Normandy with the Department of International Languages . 60 of the school's older pupils are currently on a ski trip to Austria. They will spend the first week of the holidays in Zauchensee and apparently there is good snow! Thank you to all the teachers who give of their time to organize these trips and who offer the experiences to the pupils.

Our new *Ti a Fi* group started at the beginning of March. If you know someone with a baby or pre-Nursery age child who would like to join the small group that meets weekly every Monday morning, please share the school email with them post@llanhari.com

Finally, I would like to wish all the pupils in years 10-13 who will be revising for external exams over the coming weeks, well. They have worked conscientiously on coursework and assessments throughout the year and this is the "final lap". I encourage them to reflect on all the revision techniques which have been presented to them and use them when preparing for the exams. Good luck to everyone!

Best wishes and Happy Easter!

Meinir Thomas

Meinir Thomas
Headteacher